# Dod yn Arolygydd Cofrestredig Meithrin

Ydych chi'n barod i ddechrau'ch cais? Ymlaen i'r ffurflen gais

## Ynglŷn â'r rôl

Oes gennych chi ddealltwriaeth dda o sut mae plant ifanc yn dysgu ac yn datblygu? Ydych chi'n hyderus wrth farnu safonau plant 3 a 4 oed? A allwch chi nodi cryfderau a diffygion mewn darpariaeth ac arweinyddiaeth yn briodol?

Ydych chi'n dda am esbonio pethau heb ddefnyddio jargon ac yn gallu gwneud i bobl deimlo'n gyfforddus? Ydych chi'n gallu casglu tystiolaeth yn gyflym a gwerthuso ei phwysigrwydd yn gywir? Ydych chi'n ysgrifennu'n glir ac yn gryno ac yn gwneud yn siŵr fod pobl eraill yn gallu deall yr hyn rydych chi am ei gyfleu yn hawdd?

Os gallwch chi roi ateb cadarnhaol i'r cwestiynau hyn, beth am ystyried dod yn Arolygydd Cofrestredig Meithrin?

## Cymhwysedd

Byddwch yn gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'r Saesneg, a byddwch:

- yn athro cymwysedig/athrawes gymwysedig ag o leiaf 3 blynedd o brofiad o addysgu plant 3 a 4 oed neu fod wedi gweithio fel athro/athrawes ymgynghorol (â Statws Athro Cymwysedig (SAC) yn cefnogi lleoliadau nas cynhelir am o leiaf 2 flynedd.

Os gwnaethoch gais blaenorol i ddod yn Arolygydd Cofrestredig Meithrin, ond ni chawsoch wahoddiad i'r hyfforddiant, byddem yn hapus i ystyried cais newydd os ydych chi o'r farn bod eich profiad yn bodloni'n gofynion erbyn hyn.

## Dewis a hyfforddi

Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â chanlyniad eich cais erbyn **23 Ionawr 2026**. Bydd yr hyfforddiant ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd yn cynnwys:

- **Rhan un**
  Cyfarfod ar-lein ar **10 Chwefror 2026**.

- **Rhan dau**
  Mae hyn yn cynnwys asesiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, a gynhelir ar **17-19 Mawrth 2026** (yng Nghaerdydd - lleoliad i'w gadarnhau).
- **Arolygiad(au) prawf**
  Cewch eich defnyddio mewn arolygiad asesedig, a bydd yr arolygydd arweiniol yn graddio eich perfformiad. Bydd angen i chi gael gradd A neu B i lwyddo.

Mae'r hyfforddiant yn rhad ac am ddim, a byddwn yn talu'ch costau teithio a chynhaliaeth ac am eich llety dros nos (os byddwch yn gymwys) yn unol â'n polisi teithio a chynhaliaeth.

## Cymeradwyaeth

Er mwyn mynychu hyfforddiant ac, os yn llwyddiannus, mynychu arolygiadau, mae'n rhaid i ni derbyn cymeradwyaeth gan eich cyflogwr. Rhaid derbyn hwn cyn yr hyfforddiant neu ni fyddwch yn gallu mynychu.  Bydd e-bost yn mynd at y cyswllt rydych chi wedi'i rannu yn eich cais.

## Tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

I symud ymlaen i'r arolygiad asesedig, mae'n rhaid i chi gwblhau'r asesiadau'n llwyddiannus a chael tystysgrif Uwch ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Rhaid i'r dystysgrif fod yn llai na thair blynedd oed ac yn cynnwys y categori Gweithlu Plant. Unwaith y byddwn wedi derbyn eich tystysgrif, bydd ein tîm Cynllunio ac Ymestyn yn cysylltu â chi gyda manylion yr arolygiad asesedig. Yn ystod yr arolygiad, bydd yr arolygydd arweiniol yn asesu eich gwaith ac yn rhoi gradd i chi ar ddiwedd wythnos yr arolygiad.

Rydym yn argymell eich bod yn gwneud cais am dystysgrif GDG cyn gynted ag y byddwch wedi pasio rhan 2 – gall gymryd hyd at chwe wythnos i'r dystysgrif gael ei chyhoeddi. Unwaith y bydd gennych eich GDG, neu os oes un gennych eisoes, anfonwch gopi wedi'i sganio at dbschecks@estyn.gov.wales a chynnwys enw a dyddiad yr hyfforddiant fel y gallwn wirio ei fod yn bodloni ein gofynion. **Ni fyddwch yn cael eich defnyddio nac yn cael eich ystyried fel eich bod wedi pasio'r hyfforddiant yn llawn nes bod eich tystysgrif wedi'i derbyn.**

## Defnyddio

Mae Arolygwyr Cofrestredig Meithrin yn cyflwyno tendrau i weithio â ni. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar ba mor aml y gallant arolygu i ni yn ystod y flwyddyn academaidd.

## Hyfforddiant Diweddaru Blynyddol

Bob blwyddyn, rydym yn gwahodd pob arolygydd i fynychu hyfforddiant diweddaru; rhaid i chi fynychu'r hyfforddiant hwn er mwyn gallu parhau i fod yn arolygydd. Ni chodir tâl am yr hyfforddiant, ond

ni allwn dalu costau cyflenwi na chostau teithio a chynhaliaeth.

## Sut i wneud cais

**Ffurflen gais ar-lein: https://www.smartsurvey.co.uk/s/3ITYEB/**
**Dyddiad cau: canol dydd, 12 Rhagfyr 2025**

Byddwn yn cysylltu â phawb gyda chanlyniad eu cais erbyn **23 Ionawr 2026**.

Mae unrhyw feysydd â * wrth eu hymyl yn orfodol, felly ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r ffurflen heb roi ymateb yn y meysydd hyn. Os na fyddant yn berthnasol i chi, rhowch 'Dd/B'.

## Manylion cyswllt

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae arnoch ei hangen am y rôl a'r broses ymgeisio, ond os oes gennych ragor o gwestiynau, anfonwch neges e-bost atom: digwyddiadau@estyn.llyw.cymru neu ffoniwch ni ar 02920 44 6510.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.